



Sophie Vaughan
Arbenigwr Cyflog a Chydnabyddiaeth
Cyngor Sir Ddinbych
sophie.vaughan@denbighshire.gov.uk

29 Hydref 2018

Annwyl Sophie

Fe gafodd eich e-bost dyddiedig 17 Hydref gyda'r adroddiad cryno a dogfennau ategol am eich cynnig i gynyddu cyflog y Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 24 Hydref. Roedd holl aelodau'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod yn gwneud cworwm.

Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â cyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Argymhell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl edrych ar eich cyflwyniad mae'r Panel wedi penderfynu mynegi pryderon ynghylch eich cynnig i gynyddu cyflog y Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd o £68,889 - £71,002 i £84,009-£86,589.

Mae hepgor cyfrifoldebau gwasanaeth o'r disgrifiad swydd gwreiddiol yn sefyllfa ryfedd, ond nid yw hynny'n newid barn y Panel bod y gwasanaethau hynny yn nodweddiadol o'r math o ddyletswyddau y disgwyliid eu cyflawni gan bennaeth priffyrdd.

Nid yw'r swydd sy'n cael ei disgrifio yn wahanol i swyddi cyfatebol eraill yn y Gogledd, ac nid yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu'n argyhoeddi'r Panel bod cwrmpas y swydd wedi newid digon i gyfiawnhau ailraddio.

Roedd y Panel hefyd yn holi dan ba bortffolio yr oedd y cyfrifoldebau gwasanaeth coll wedi'u gosod yn flaenorol. Os yw'r cyfrifoldebau hyn nawr yn cael eu trosglwyddo i bortffolio'r Pennaeth Priffyrdd, a fydd unrhyw effaith ariannol ar y swydd fydd yn colli rhan sylweddol o'i chyfrifoldebau?

Yn gywir

John Bader
Cadeirydd y Panel